Gwers 21 – Jona'n rhedeg i ffwrdd

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Jona 1:1 – 3:10

Yr oedd Jona'n cael ei anfon i un o'r mannau peryclaf yn y Dwyrain Canol, Ninefe, yn agos i Mosul, Irac heddiw. Y mae Irac yn beryglus hyd heddiw, yn enwedig o gwmpas Mosul ond am wahanol resymau efallai. Diben anfon Jona i Ninefe, meddai Duw, oedd llefaru yn ei herbyn 'oherwydd daeth ei drygioni i'm sylw' (Jona 1:2). Yr oedd Jona i fynd i ddinas gaerog, a mwyaf pwerus y dydd, a dweud wrth bobl dreisgar ac ymosodol nad oedd Duw yn hoffi eu ffordd o fyw. Ymateb Jona oedd ffoi cyn belled ag oedd yn bosibl iddo.

Y mae Jona felly yn ceisio ffoi oddi wrth Dduw. Nid oedd hynny'n beth doeth i'w wneud oherwydd golygai redeg i ffwrdd oddi wrth rywun sydd yn bresennol ymhob man. Fel yn hanes Adda yng ngardd Eden a Jacob ym Methel, roedd Duw a'i lygaid ar Jona bob cam a da o beth hynny, oherwydd cafodd y proffwyd ei hun ar long mewn storm.

I geisio arbed criw y llong, taflwyd y gêr oddi ar y llong i'r môr, ond nid oedd hynny'n ddigon. Penderfynodd y criw fwrw coelbren er mwyn canfod pwy oedd yn gyfrifol am eu hargyfwng. Syrthiodd y coelbren ar Jona ac er eu bod yn anfodlon ar y cychwyn, ar orchymyn Jona, bwriasant ef i'r môr. Ond yr oedd Duw gyda'i was a threfnodd i bysgodyn mawr ei lyncu. Mewn gweddi o fol y pysgodyn, mae'n cydnabod mai Duw sydd wedi ymyrryd ac wedi trefnu ffordd i'w arbed o'r môr, ond nid oes arwydd o edifeirwch yn ei eiriau.

Ymhen amser, trefnodd Duw i'r pysgodyn chwydu Jona ar y lan. Llefarodd Duw wrth Jona am yr eildro a'i wysio i fynd i Ninefe. Y tro hwn ufuddhaodd Jona a chyhoeddi wrth drigolion y ddinas, 'Ymhen deugain diwrnod fe ddymchwelir Ninefe'. Y syndod yw bod y bobl wedi gwrando arno, a chyhoedda'r brenin gyfnod o ympryd a diwrnod o edifeirwch a gweddi. 'Bydded iddynt wisgo sachliain a galw yn daer ar Dduw. Bydded i bob un droi oddi wrth ei ffordd ddrygionus.... Pwy a ŵyr na fydd Duw yn edifarhau eto, ac yn troi oddi wrth ei ddig mawr, fel na'n difethir ni?' (Jona 3:9).

Jona

Brodor o Gath-hepher, tref rhyw awr o daith o Nasareth. Dywed traddodiad Iddewig mai mab y wraig weddw o Sareffath, a godwyd o farw'n fyw gan Elias, oedd Jona. Ond nid oes tystiolaeth sicr i'r gred. Un cyfeiriad sydd at broffwyd a elwir Jona (2 Bren. 14:25). Fe'i cynhwysir ymhlith y proffwydi, er dim ond proffwydoliaeth un llinell sydd yn y llyfr – 'Ymhen deugain diwrnod fe ddymchwelir Ninefe' (Jona 3: 4). Un o gyfoeswyr Jona oedd Amos.

Ninefe

Prifddinas Assyria a ddinistriwyd gan fyddin Babilon. Nodir y ddinas heddiw gan dwmpathau yn agos i Mosul, yn Irac .

Tarsis

Cyfeirir at longau o Tarsis, e.e dywedir fod gan Solomon 'longau Tarsis'. Gall fod yn ardal yn ffinio â Môr y Canoldir, yn gyfoethog mewn adnoddau megis coed, aur, arian a haearn. Mae'n amlwg fod Tarsis yn ddigon pell o Ninefe ac y byddai Jona'n teimlo'n ddiogel yno.

Pysgodyn

Nid yw'r Beibl yn sôn am forfil fel y tybir yn aml. Roedd Duw'n aml yn gwneud rhywbeth annisgwyl.



Doedd Jona ddim am wrando ar Dduw a mynd i ddinas Ninefe. Ceisiodd cuddio gan Dduw. Beth ddigwyddodd ar y môr?

O'r diwedd, newidiodd Jona ei feddwl, ac aeth i Ninefe i ddweud wrth bawb yno am Dduw.

Defnyddia dy fysedd a phaent i liwio'r pysgodyn ac i lenwi'r môr gyda physgod eraill o bob lliw.

O Dduw, weithiau nid ydym yn gwrando arnat ti, fel Jona. Plîs maddau i ni a helpa ni i fod yn ufudd bob amser. Amen.

Gwers 21 – Jona yn rhedeg i ffwrdd

Jona | Beibl Newydd y Plant tud. 108

(Llyfr Jona)

Gwers 21
Jona yn rhedeg i ffwrdd

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed
Jona yn rhedeg i ffwrdd tud 90

BEIBL LLIW STORI DUW
Jona yn rhedeg i ffwrdd tud 165

BEIBL BACH STORI DUW
Negesydd Duw tud 160

BEIBL NEWYDD Y STORIWR
Jona'n cwyno tud 66

BEIBL LLIW Y PLANT
Jona a'r pysgodyn mawr tud 174

BEIBL NEWYDD Y PLANT
Jona tud 108

BEIBL BACH I BLANT
Y pysgodyn anferth tud 264

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU
Stori Jona tud 266

BEIBL LLIW Y TEULU
Negesydd Duw tud 99

Amser Chwarae

Bydd angen powlen fawr o ddŵr arnoch ac amrywiaeth o offer i'r plant chwarae, e.e. cwpanau plastig sydd â thyllau ynddynt, bocsys plastig, teganau bath. Hefyd, darnau sgwâr o bapur i greu cychod papur a gwellt yfed.

Ar ôl chwarae am dipyn, dangoswch i'r plant sut i greu cwch papur, ac i greu 'storm' gyda'r gwellt yfed.

Amser Stori

Bydd angen blanced i'w rhoi ar y llawr fel "cwch." Gosodwch ambell gadair mewn siâp hirgrwn gydag ymylon y flanced drostynt fel "ochrau'r" cwch. Byddai pegiau dillad yn ddefnyddiol i ddal y flanced yn ei lle.

Eisteddwch yn y 'cwch' gyda'r plant ac adroddwch hanes Jona yn eich geiriau eich hun, gan annog y plant i ymuno gyda symudiadau perthnasol – rhwyfo, ysgwyd yn ôl ac ymlaen yn y storm, creu sŵn y storm, taflu Jona i'r môr ayyb. Pwysleisiwch fod Jona wedi clywed neges gan Dduw i fynd i ddinas Ninefe a bod ofn arno a dewisodd geisio rhedeg i ffwrdd oddi wrth Dduw. Esboniwch fod Duw yn gallu gweld Jona a'i fod wedi danfon y storm a'r pysgodyn er mwyn gorfodi Jona i wneud yr hyn y dylai ei wneud! Eglurwch fod Jona wedi cael cyfle arall i fod yn ufudd ac i fynd i ddinas Ninefe a bod pobl Ninefe wedi ymateb yn dda i'w neges.

Cân

(I'r dôn 'London Bridge is falling down')

"Jona, dos/cer i Ninefe, Ninefe, Ninefe,
Jona dos/cer i Ninefe," meddai Duw.

"Af i ddim i Ninefe, Ninefe, Ninefe,
Af i ddim i Ninefe," meddai Jona.

I mewn i gwch, ac i ffwrdd ag ef....
roedd Duw yn ei weled.

Daeth storom fawr, roedd gan bawb ofn.....
Bai Jona yw'r cwbl!

Danfonodd Duw bysgodyn mawr.....
a llyncodd Jona'n gyfan!

"Sori Dduw, dwi'n barod i fynd.....
draw i Ninefe."

Gêm 'Dilyn yr Arweinydd'

Mae pawb yn eistedd mewn cylch gydag un o'r plant yn sefyll tu allan i'r ystafell, tra eich bod yn dewis "arweinydd." Mae'r arweinydd yn gwneud symudiadau gwahanol (clapio, tapio gwahanol rannau o'r corff ayyb), ac mae pawb arall yn ei (g)chopïo. Mae'r person sydd wedi bod tu allan yn gorfod ceisio dyfalu pwy yw'r arweinydd. Yna, mae'r arweinydd a'r dyfalwr yn newid lle.

Byddai'n syniad i chi ddangos sut mae'r arweinydd yn newid o un symudiad i un arall gyda phawb yn copïo cyn cychwyn y gêm yn iawn. Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed am hanes Jona. Roedd Jona wedi cael neges gan Dduw i fynd i rywle arbennig, ond nid oedd yn fodlon gwrando ar Dduw – doedd e ddim yn dilyn Duw fel arweinydd!

Crefft

Llyfr Crefft t. 123–124

Adnoddau Ychwanegol

Crefft
Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 123–124

Gwerslyrau Golau ar y Gair
Jona; Proffwyd anfodlon

Taflenni gwefan amserbeibl.org
Cyfres C – Jona

Cyfres DVD Stori Duw
Stori 30: Jona'r rhedeg i ffwrdd

Cwis a Chwilair
Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 318

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant
Cyflwyniad 30: Y Pysgodyn Anferth

Llyfrau Stori
Cyfres Fi Hefyd – Dydw i ddim eisiau
Hwyl Jigso – Jona a'r Morfil
Cyfres Pysgodyn Bach – Jona ym mol y morfil
Llyfr Stensil Anifeiliaid y Beibl – Jona